

Pwyllgor Craffu ar Berfformiad – Partneriaethau

Yn bresennol: Y Cyngorwyr E Stowell-Corten (Cadeirydd), B Davies, P Drewett, F Hussain, J Jones, A Morris, M Pimm ac A Screen

Yn Mynychu: Y Cyngorydd Dimitri Batrouni (Aelod Cabinet dros Drawsnewid Sefydliadol), Rhys Cornwall (Cyfarwyddwr Strategol-Trawsnewid a Chorfforaethol), Tracy Mckim (Pennaeth Pobl, Polisi a Thrawsnewid), Matt Lewis (Prif Swyddog Gwasanaeth Adnoddau a Rennir) Sarah Stephens (Gwasanaeth Adnoddau a Rennir Arweiniol Addysgol), Kath Beavan-Seymour (Cyfarwyddwr Cynorthwyol Gwasanaeth Adnoddau a Rennir), Dominic Gibbons (Rheolwr Prosiectau Digidol), Mike Doverman (Rheolwr Cymorth Defnyddwyr Gwasanaethau Adnoddau a Rennir), Paul Higgs (Cyfarwyddwr Cynorthwyol – Uwch Dîm Arwain – Gwasanaeth Adnoddau a Rennir), Janice Dent (Rheolwr Polisi a Phartneriaeth), Dr Bethan Bowden (Ymgynghorydd Iechyd y Cyhoedd Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan), Harriet Bleach (Uwch Swyddog Cyfoeth Naturiol Cymru), Wayne Tucker (Uwch Swyddog Polisi a Phartneriaeth), Neil Barnett (Ymgynghorydd Craffu), Taylor Strange (Swyddog Llywodraethu) a Simon Richards (Swyddog Llywodraethu)

Ymddiheuriadau: Y Cyngorwyr C Baker-Westhead a K Whitehead

1 Datganiadau o ddiddordeb

Dim.

2 Diweddariad Monitro Gwasanaeth Rhannu Adnoddau

Gwahoddedigion:

- Dimitri Batrouni (Yr Aelod Cabinet dros Drawsnewid Sefydliadol)
- Rhys Cornwall (Cyfarwyddwr Strategol – Trawsnewid a Chorfforaethol)
- Tracy McKim (Pennaeth Pobl, Polisi a Thrawsnewid)
- Matt Lewis (Prif Swyddog, Gwasanaeth Adnoddau a Rennir)
- Sarah Stephens (Arweinydd Addysgol, Gwasanaeth Adnoddau a Rennir)
- Kath Beavan-Seymour (Cyfarwyddwr Cynorthwyol, Gwasanaeth Adnoddau a Rennir)
- Dominic Gibbons (Rheolwr Prosiectau Digidol)
- Mike Doverman (Rheolwr Cymorth i Ddefnyddwyr, Gwasanaeth Adnoddau a Rennir)
- Paul Higgs (Cyfarwyddwr Cynorthwyol – Uwch Dîm Arwain – Gwasanaeth Adnoddau a Rennir)

Rhoddodd Prif Swyddog y Gwasanaeth Adnoddau a Rennir a'r Pennaeth Pobl, Polisi a Thrawsnewid drosolwg o'r adroddiad a chefnidir i'r Gwasanaeth Adnoddau a Rennir.

Trafodwyd y canlynol:

- Cododd y Pwyllgor gwestiynau ynghylch y cynnydd o ran recriwtio sefydliadau ychwanegol i'r Gwasanaeth Adnoddau a Rennir (GAR). Esboniodd Prif Swyddog y Gwasanaeth Adnoddau a Rennir gynlluniau i ymgorffori grwpiau yn y GAR a thynnu sylw at ddiddordeb awdurdod yn Lloegr mewn partneriaeth â GAR.
- Holodd y Pwyllgor am golli 27 aelod o staff yn y GAR. Esboniodd Prif Swyddog y Gwasanaeth Adnoddau a Rennir mai'r prif reswm dros adael oedd cyflogau is o gymharu â sefydliadau eraill. Yn ogystal, roedd rhai staff yn gweld y gwaith yn rhy gymhleth.
- Gofynnodd y Pwyllgor am ddull y GAR o ymdrin â sgamiau ar-lein. Tynnodd y Prif Swyddog sylw at un mesur y maent wedi'i gymryd, sy'n cyfyngu mynediad i'r DU yn unig.
- Gofynnodd y Pwyllgor am amrywiaeth y prentisiaid a holodd am gysylltiadau prifysgol ar gyfer profiad gwaith. Rhoddodd Prif Swyddog y Gwasanaeth Adnoddau a Rennir wybod i'r Pwyllgor am eu cydweithrediad â chynllun yng Nghaerdydd a'u hymdrechion i gyrraedd grwpiau lleiafrifol neu grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol.
- Holodd y Pwyllgor am gysylltu'n uniongyrchol am gymorth gan y GAR. Dywedodd Prif Swyddog y Gwasanaeth Adnoddau a Rennir y gellir darparu'r wybodaeth hon.
- Holodd y Pwyllgor y ffigurau mewn cronfeydd wrth gefn o'u cymharu â chyllid cyfalaf. Eglurodd Prif Swyddog y Gwasanaeth Adnoddau a Rennir fod y rhain yn ffigurau gwahanol yn seiliedig ar gronfeydd wrth gefn referniw a chyllid a ddarperir gan Gasnewydd.
- Gofynnodd y Pwyllgor am nifer y prentisiaethau yng Nghasnewydd. Eglurodd Prif Swyddog y Gwasanaeth Adnoddau a Rennir fod y cyllid ar gyfer y prentisiaethau hyn yn dod o'r GAR, a'u bod yn gweithio gyda'u holl bartneriaid, nid yn unig yng Nghasnewydd.
- Holodd y Pwyllgor am alwadau y tu allan i oriau a chymorth TG. Eglurodd Cyfarwyddwr Cynorthwyol y Gwasanaeth Adnoddau a Rennir fod y ddesg wasanaeth yn gweithredu 9-5 o ddydd Llun i ddydd Gwener, ac mae'r gwasanaeth y tu allan i oriau yn cael ei staffio i ymdrin â materion system hanfodol. Pwysleisiodd y Pennaeth Pobl, Polisi a Thrawsnewid bwysigrwydd gallu GAR i ddarparu cefnogaeth na all tîm TG mewnol.
- Holodd y Pwyllgor sut mae'r GAR yn cadw'n ymwybodol o ymosodiadau seiberddiogelwch. Soniodd Prif Swyddog y Gwasanaeth Adnoddau a Rennir am ddyrannu adnoddau a staff i fynd i'r afael â materion seiberddiogelwch. Amlygodd y Pennaeth Pobl, Polisi a Thrawsnewid fod gan Gyngor Casnewydd berchennog risg a gefnogir gan y GAR.
- Gofynnodd y Pwyllgor a oedd unrhyw ymosodiadau neu bryderon diogelwch i ysgolion yng Nghasnewydd. Cadarnhaodd Prif Swyddog y Gwasanaeth Adnoddau a Rennir nad oes unrhyw rai i ysgolion a gefnogir gan y GAR.
- Holodd y Pwyllgor am rwyddineb defnyddio gwefan newydd Casnewydd. Sicrhaodd y Pennaeth Pobl, Polisi a Thrawsnewid y bydd yn well na'r wefan bresennol a chrybwyllodd gyllido partneriaid i'w dylunio'n briodol. Nododd Prif Swyddog y Gwasanaeth Adnoddau a Rennir fod Casnewydd yn rhan o grŵp o gynghorau sy'n rhannu arferion gorau ar gyfer dylunio gwefan.
- Mynegodd y Pwyllgor ddiddordeb mewn lleihau effaith amgylcheddol storio data. Eglurodd Prif Swyddog y Gwasanaeth Adnoddau a Rennir y byddai storio ar y cwmwl

yn helpu i gyflawni'r nod hwn. Soniodd y Rheolwr Prosiectau Digidol am bolisi cwmwl Casnewydd, sydd hefyd yn arbed costau ynni.

- Holodd y Pwyllgor yr amser y byddai'n ei gymryd i ddod â systemau'r GAR yn ôl i'w capasiti llawn pe byddent yn methu. Sicrhodd Prif Swyddog y Gwasanaeth Adnoddau a Rennir fod ganddynt fesurau ar waith i gyfyngu ar yr effaith, gan gynnwys systemau a chyfleusterau amrywiol. Maen nhw hefyd yn ymchwilio i reoli trychinebau, a fyddai'n golygu cadw copi o'r holl ffeiliau'n allanol. Ychwanegodd Rheolwr Cymorth Defnyddwyr y Gwasanaeth Adnoddau a Rennir eu bod yn cynnal senarios trychinebau i brofi'r sefyllfaoedd hyn.
- Diolchodd yr Aelod Cabinet dros Drawsnewid Sefydliadol i'r Pwyllgor, swyddogion a phartneriaid am eu cyfranogiad. Fe wnaethant bwysleisio'r ymdrech gyson i amddiffyn rhag materion seiberddiogelwch a'r awydd i sbarduno sgiliau a thalent yng Nghasnewydd. Amlygodd yr Aelod Cabinet dros Drawsnewid Sefydliadol bwysigrwydd lleihau costau a defnyddio sgiliau'r tîm GAR. Fe wnaethant hefyd bwysleisio pwysigrwydd rheoli a defnyddio data.

Diolchodd y Cadeirydd i'r swyddog am fod yn bresennol.

Casgliadau

- Diolchodd y Pwyllgor i'r gwahoddedigion am fynychu, a chanmol yr adroddiad cadarnhaol, Canmolodd yr aelodau frwdfrydedd y swyddogion wrth drafod yr adroddiad a chryfder y bartneriaeth. Canmolodd yr Aelodau hefyd yr wybodaeth ariannol a ddarparwyd yn yr adroddiad, gan werthfawrogi'r sicrwydd bod arian wedi'i gadw ar gyfer prosiectau amrywiol.
- Gofynnodd yr aelodau am ystadegau ynghylch amrywiaeth y prentisiaid yn y bartneriaeth.
- Roedd yr Aelodau'n falch o dderbyn y newyddion y bydd gwefan y cyngor sydd ar ddod yn blaenoriaethu hygyrchedd i ddefnyddwyr a chydawnsedd ffynhonnell agored ar gyfer diweddariadau yn y dyfodol. Mynegwyd diddordeb hefyd mewn derbyn enghreifftiau o wefannau ffynhonnell agored a ddefnyddir gan awdurdodau lleol eraill.
- Hoffai'r Pwyllgor fwy o wybodaeth am y Cynllun Adfer Trychineb pan gaiff ei ddatblygu fel rhan o adroddiad y flwyddyn nesaf. Gofynnodd yr Aelodau hefyd am adroddiad Gwybodaeth yn y cyfamser os oedd ar gael.
- Hoffai'r Pwyllgor wybod a oes rhif cyswllt uniongyrchol i'r Aelodau gysylltu â'r GAR gyda materion.
- Hoffai aelodau wybod hyfywedd recriwtio mwy o sefydliadau i'r bartneriaeth.
- Hoffai'r Aelodau wybod a fu unrhyw ddigwyddiadau yn ymwneud â chwalfa sydd wedi arwain at broblemau diogelu mewn ysgolion.

3 Adroddiad Terfynol Cynllun Llesiant Casnewydd yn Un

Gwahoddedigion

- Janice Dent (Rheolwr Polisi a Phartneriaeth)

- Dr Bethan Bowden (Ymgynghorydd Iechyd Cyhoeddus Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan)
- Harriet Bleach (Uwch Swyddog Cyfoeth Naturiol Cymru)
- Wayne Tucker (Uwch Swyddog Polisi a Phartneriaeth)

Rhoddodd y Rheolwr Polisi a Phartneriaeth drosolwg o'r adroddiad, gan fynegi bodlonrwydd y Partneriaeth â'i ganlyniadau, gan nodi casgliad llwyddiannus cynllun pum mlynedd, a thynnu sylw at gyflawniadau sylweddol y Partneriaid a'u hymrwymiad i'r bartneriaeth. Cymeradwyodd yr Ymgynghorydd Iechyd Cyhoeddus o Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan yr ymdrechion a wnaed i ymgysylltu â rhanddeiliaid a derbyniad cadarnhaol y fenter cyllidebu cyfranogiad. Fe wnaethant ganmol yn benodol y berthynas bartneriaeth wirioneddol sydd wedi'i meithrin.

Trafodwyd y canlynol:

- Diolchodd y Pwyllgor am yr adroddiad a'i gynnwys. Fe wnaethant hefyd holi am statws y faner borffor a'i meini prawf ymgeisio. Dywedodd y Rheolwr Polisi a Phartneriaeth eu bod wrthi'n ailymgeisio am statws baner borffor ar hyn o bryd a rhoddodd sicrwydd i'r Pwyllgor y byddant yn darparu'r wybodaeth y gofynnwyd amdani.
- Gofynnodd y Pwyllgor a oedd y partneriaid wedi cymryd rhan mewn trafodaethau gyda diddanwyr a pherfformwyr i gasglu eu barn ar ganol y ddinas. Cydnabu'r Rheolwr Polisi a Phartneriaeth yr ymholiad hwn a soniodd y byddant yn rhoi adborth i'r partneriaid ynglŷn â'r mater hwn.
- Holodd y Pwyllgor am y mentrau a'r gweithgareddau sy'n cael eu cynnal i ymgysylltu ag ieuenctid a darparu cyfleoedd iddynt. Ymatebodd y Rheolwr Polisi a Phartneriaeth drwy ddweud bod y maes gwasanaeth atal a chynhwysiant yn targedu ieuenctid yn benodol. Pwysleisiwyd bod cryn dipyn o waith yn cael ei wneud yn hyn o beth. Yn ogystal, cynigiwyd darparu gwybodaeth fanylach y tu allan i'r cyfarfod.
- Holodd y Pwyllgor am unrhyw newidiadau posibl i'r rhestr o bartneriaid, gan gynnwys ychwanegu neu ddileu rhai. Dywedodd y Rheolwr Polisi a Phartneriaeth wrth y Pwyllgor eu bod yn gwerthuso'u partneriaid yn barhaus. Amlygodd y Pennaeth Pobl, Polisi a Thrawsnewid fod Casnewydd wedi blaenoriaethu mynd y tu hwnt i'r partneriaid statudol, gan wahaniaethu eu hunain oddi wrth awdurdodau eraill.
- Cododd y Pwyllgor gwestiwn ynghylch ymrwymiad y partneriaid i ddysgu a gwella'n barhaus yn flynyddol. Ymatebodd y Rheolwr Polisi a Phartneriaeth drwy egluro bod y broses ddysgu a gwella yn dilyn dull o'r gwaelod i fyny. Pwysleisiwyd bod gwelliant parhaus yn cael ei annog a'i drin o bob agwedd ar y partneriaethau.
- Cydnabu'r Pwyllgor arwyddocâd y gwaith amgylcheddol a fydd yn dod â manteision i Gasnewydd. Gwnaethant ddiolch i'r swyddogion am eu hymdrechion yn hyn o beth.
- Cododd y Pwyllgor bryderon ynghylch a oes mesurau digonol wedi'u cymryd i liniaru perygl llifogydd yng Nghasnewydd. Ymatebodd yr Uwch Swyddog o Cyfoeth Naturiol Cymru drwy ddweud y bydd Cynllun Lles nesaf Gwent yn mynd i'r afael â newid hinsawdd, sy'n cynnwys rheoli perygl llifogydd. Fe wnaethant roi gwybod i'r Pwyllgor hefyd y bydd Steve Morgan, Pennaeth Gweithrediadau De-ddwyrain Cymru yn Cyfoeth Naturiol Cymru, yn ymgysylltu'n uniongyrchol ag aelodau'r Pwyllgor i drafod materion perygl llifogydd y tu allan i'r cyfarfod. Gofynnodd y Pwyllgor am gyflwyno adroddiad ar berygl llifogydd gan Cyfoeth Naturiol Cymru i'r Pwyllgor i drafod ac ystyried ymhellach.

Diolchodd y Cadeirydd i'r swyddogion am fod yn bresennol.

Casgliadau

- Diolchodd y Pwyllgor i'r gwahoddedigion am fynychu, a chafodd yr wybodaeth a gafwyd argraff fawr arnynt. Sylwodd yr Aelodau fod y gwaith rhwng y partneriaid yn sylweddol dros y pum mlynedd diwethaf, ac roeddent yn dymuno rhoi sylwadau am frwdfrydedd y partneriaid a gyflwynodd eu hadroddiad unwaith eto. Roedd yr aelodau hefyd yn dymuno nodi bod y gwaith sy'n cael ei wneud gan y bartneriaeth yn ysbrydoliaeth i bobl ifanc, megis helpu i greu mannau gwyrdd mewn ardal o'r ddinas na fu'n wyrdd o'r blaen, a byddai hyn yn talu ar ei ganfed i genedlaethau'r dyfodol.
- Gofynnodd y Pwyllgor am rannu'r meini prawf ar gyfer statws Baner Borffor ag Aelodau'r Pwyllgor ar ffurf diweddariad ysgrifenedig. Holodd yr Aelodau hefyd a yw'r bartneriaeth wedi siarad â pherfformwyr neu ddi-ddanwyr yng nghanol y ddinas neu gysylltu â nhw ynghylch beth eu syniadau am ganol y ddinas ac a oes ganddynt unrhyw awgrymiadau ar sut i wella'r profiad adloniant yng nghanol y ddinas.
- Argymhellodd y Pwyllgor fod arwyddion parhaol ar gyfer y Dinasoedd Caru Gwenyn.
- Gofynnodd aelodau a allai Cyfoeth Naturiol Cymru lunio adroddiad gwybodaeth am Berygl Llifogydd, gan gynnwys gwybodaeth am ba ardaloedd yng Nghasnewydd sydd mewn perygl o lifogydd a rhagamcanion llifogydd yn y dyfodol.

4 Adroddiad Cyngorydd Craffu

Gwahoddedig:

- Neil Barnett – Ymgynghorydd Craffu

a) Diweddariad ar y Flaenraglen Waith

Cyflwynodd yr Ymgynghorydd Craffu'r Flaenraglen Waith, a soniodd wrth y Pwyllgor am y pynciau a oedd i'w trafod yn y ddau gyfarfod pwyllgor nesaf:

Dydd Mawrth 10 Hydref 2023, eitemau'r agenda;

- Cynllun Ardal Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gwent 2023 - 2027
- Adroddiad Blynyddol Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gwent 2022-2023

Dydd Mercher 8 Tachwedd 2023, eitemau'r agenda;

- Partneriaeth Menter ar y Cyd Norse – Adolygiad Strategaeth a Pherfformiad
- Aseiad Anghenion Strategol Drafft Casnewydd Ddiogelach

b) Taflen Weithredu

Cyflwynodd yr Ymgynghorydd Craffu y daflen weithredu i'r Pwyllgor.

5 Live meeting

Daeth y cyfarfod I ben am 6.29 pm